# Rhyddid Gwybodaeth a'r archifau: eich hawliau mynediad

Mae'r daflen hon yn dweud wrthych am eich hawliau mynediad yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth (RhG) 2000, a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (RhGA) 2004, a sut mae'r hawliau hyn yn berthnasol i'r archifau a gedwir gan yr Archifau Cenedlaethol.

Beth yw fy hawliau allweddol?

Yn unol â Deddf RhG a'r RhGA mae gennych yr hawl i:

- wybod a yw'r wybodaeth y mae arnoch ei eisiau gennym ai peidio
- cael mynediad at yr wybodaeth honno (lle bynnag y bo modd).

Pa ddewisiadau sydd gennyf?

- Bydd croeso i chi ymweld â ni a gwneud ymchwil drosoch eich hun, a hynny heb orfod talu. Byddwn hefyd yn parhau i gynnig cyngor a chyfarwyddyd am ddim.
- Mae modd i chi archwilio'r catalog ac archebu dogfennau ar lein ar ein gwefan: www.nationalarchives.gov.uk
- Gellwch gysylltu ag ymchwilwyr annibynnol a fyddai'n codi arnoch am ymchwilio ar eich rhan– gallai prisiau'r rhain fod yn rhatach na rhai ni.
- Gellwch wneud cais yn unol â RhG.

Pwy all wneud cais yn unol â RhG?

- Unrhyw un mewn unrhyw ran o'r byd – nid oes rhaid i chi fod yn ddinesydd neu'n breswylydd y DU.

Sut mae mynd ati i wneud cais yn unol â RhG?

Nodwch yn glir yr wybodaeth yr ydych yn ei cheisio naill ai drwy

- lenwi'r ffurflen ar ein gwefan: www.nationalarchives.gov.uk/contact/form/

- neu drwy ysgrifennu at ein Gwasanaeth Ymholiadau, Yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Richmond, Surrey TW9 4DU

- os bydd eich ymholiad yn ymwneud â gwybodaeth amgylcheddol, mae gennych hawl i wneud eich cais drwy ein ffonio (020 8876 3444) ond bydd yn haws i ni ymdrin â'r cais os defnyddiwch y ffurflen gyswllt neu ysgrifennu atom

Cofiwch gynnwys eich manylion cyswllt gyda'ch cais.

Faint o amser fydd yn ei gymryd?

- Mae'n ddyletswydd arnom i ymateb i'ch cais a chyflwyno'r wybodaeth, os na fydd rhesymau penodol yn ein rhwystro rhag gwneud hynny (eithriadau), o fewn 20 diwrnod gwaith.

A fydd RhG yn berthnasol i gofnodion sydd wedi eu cau i'r cyhoedd?

- Bydd. Os bydd yr wybodaeth yr ydych yn ei cheisio mewn cofnod sydd heb fod ar gael eto, gallwch wneud cais RhG.

- Byddwn yn edrych ar y cofnod ac yn ymgynghori â'r adran berthnasol o'r llywodraeth er mwyn penderfynu a oes eithriad yn berthnasol. Caniateir 30 diwrnod gwaith i ni i wneud y penderfyniad hwn.

- Os nad oes eithriad RhG yn berthnasol iddi, fe ryddheir yr wybodaeth.

- Os bydd eithriad yn berthnasol i'r wybodaeth, bydd yr adran berthnasol o'r llywodraeth yn ystyried y diddordeb cyhoeddus cyn cytuno i'w rhyddhau. Gallai'r broses hon gymryd mwy o amser a byddem yn dweud wrthych am hyn.

A fydd rhaid i mi dalu am yr wybodaeth?

- Na fydd, ond os bydd arnoch eisiau i ni chwilio am wybodaeth drosoch, pan godir tâl arnoch

- Wedi i ni dderbyn eich cais, byddwn yn dweud wrthych faint fydd cost y chwilio

- Byddwn yn gwneud y chwilio wedi i ni dderbyn eich tâl

- Ni fyddwn yn codi arnoch am benderfynu a gewch fynediad ai peidio at wybodaeth sydd mewn cofnod sydd wedi ei gau, ond codwn arnoch os byddwch yn gofyn i ni wneud archwiliadau mewn cofnodion caeedig i ganfod a ydynt yn cynnwys yr wybodaeth y mae arnoch ei heisiau.

- Ni chodir tâl am ymweld â'r Archifau Cenedlaethol a gwneud ymchwil drosoch eich hun. Mae cyngor a chyfarwyddyd ar gael i ymwelwyr a hynny am ddim.

Os ydym yn canfod yr wybodaeth ac yn cael ei rhyddhau, byddwn yn ei rhoi i chi. Efallai y byddwn yn codi arnoch am gopïau o ddogfennau.

Beth yw'r drefn os wyf am wneud cwyn?

Mae gennych hawl i gwyno os ydych yn anfodlon gyda'r modd yr ymdriniwn â'ch cais. Os ydych yn dymuno cwyno, gofynnir i chi gysylltu â ni. Am fanylion pellach, dilynwch y cyswllt hwn: www.nationalarchives.gov.uk/contact/complaints.htm